

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 14eg Fawrth 2016

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Meirion Owen, Marion Bettenev, Gwawr Jones, Janet Charlton, Siân Godbert, Karen Pugh, Jim Boughton, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriadau Terry Bullock, Gareth Parry, Cyng Elisabeth Roberts Cyng Sir.
Datgan diddordeb Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion, Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Chwefror 2016.

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Diffibriliwr

Dyweddodd y clerch fod y diffibriliwr yn ei le yn y feddygfa ym Mhentre' Du, a bod chwe person lleol wedi hyfforddi ar gyfer ei ddefnyddio.

[1.2] Taflen Wybodaeth Rhaeadr Ewynnol

Dyweddodd y Cadeirydd bod y daflen gyda'r argraffwyr.

[1.3] Cae Chwarae Pentre' Du/Byrddau Picnic

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Goleuadau Nadolig

Y clerch i drefnu prynu 3 golau ychwanegol.

[1.5] Casglu Arian/Rhaeadr Ewynnol

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.6] Olwyn Golygfa

Eglurodd y clerch bod y cwmni hamdden wedi tynnu'n ôl ar y cais i osod yr olwyn yng Nghae Llan.

[1.7] Pont-y-Soldiwr

Nodwyd bod angen gwaith cynhaliath ar y bont, gan fod bwrdd rhydd yn amlwg. Y clerch i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn a'r mater.

[1.8] Cyfleuster Parcio i'r anabl ger Swyddfa'r Bost

Eglurodd y clerch er iddo ofyn am gael ail baentio'r llinellau yn dangos bod y man parcio ar gyfer yr anabl, nid oedd y gwaith wedi ei wneud. Y clerch i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

Brif Agenda

[1.8] Materion Cynllunio

[a] Estyniad cefn unllawr , estyniad newydd i'r ystafell gardd a.y.b. Hendre Rhys Gethin, Betws-y-Coed

[b] Uwchraddio gorsaf telathrebu bresennol, Gwesty'r Rhaeadr Ewynnol, Betws-y-Coed.

[c] Codi garej a chyswllt wedi ei orchuddio, codi feranda a.y.b Glen Craig, Betws-y-Coed
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r tri chais uchod.

[d] Codi byngalo fforddiadwy, tir ger Fferm Hendre, Pentre' Du, Betws-y-Coed. Nodwyd bod Parc Cenedlaethol Eryri wedi gwrthod y cais.

[1.9] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed ym mis Chwefror 2016.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Chwefror 2016.

[2] Medal Dathlu Pen-blwydd y Frenhines Elisabeth yn 90 deg ar y 21ain Ebrill 2016

Penderfynwyd prynu medalau ar gyfer ei cyflwyno i blant Ysgol Betws-y-Coed.

[2.1] Gwasanaeth Bws Arriva Rhif 19

Cyfeiriodd y clerc at ohebiaeth gan Guto Bebb AS yn mynegi pryder bod y gwasanaeth yn dod i ben yn nechrau mis Mai eleni. Nodwyd ei fod yn bwriadu cyfarfod y Cyngor Cymuned a Chymdeithas y Tenantiaid. Y dyddiad i gael ei benderfynu.

[2.2] Materion Amrywiol

Y clerc i gysylltu gyda APCE a Chyngor BS Conwy ynglyn a'r canlynol:

[a] Bod moduron gweryslla yn parcio dros nos yn y maes parcio isaf ar Ffordd yr Orsaf.

[b] Blodau a phlethdorchau yn cael ei symud o'r beddau yn y fynwent

[c] Llynnoedd o ddŵr yn cronni ar yr A5 yn dilyn glaw gyferbyn a'r Acorns.

[2.3] Nodwyd y wybodaeth canlynol

Papur trafod ar gyfer Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol Eryri

Cadeirydd _____